# Gwent
# Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

## Adroddiad Blynyddol 2024-2025



Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Gwent
Public Services Board

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair: Y Cynghorydd Anthony Hunt | 4 |
| Cyflwyniad a Chefndir | 5 |
| Newidiadau o'r llynedd | 6 |
| Craffu BGC Gwent | 7 |
| Cynllun Llesiant Gwent | 8 |
| Plymio Dwfn - Maes Ffocws Dechrau Gorau mewn Bywyd | 9 |
| Trosolwg o'r maes ffocws | 9 |
| - Maes Ffocws Bod pawb yn byw mewn cymuned sy'n barod 'r hinsawdd lle mae eu hamgylchedd yn cael ei werthfawrogi a'i ddiogelu | 14 |
| - Maes Ffocws Mae pawb yn byw mewn lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel ynddo | 15 |
| Astudiaeth Achos | 17 |
| Creu Gwent Decach | 29 |
| BGC Gyda'n Gilydd | 35 |
| Rhaglen Blaengynlluniau | 40 |

# Rhagair



## Rhagair gan Gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent

Fel Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent, rwy'n cyflwyno, gyda balchder, Adroddiad Blynyddol eleni ar ran y Bwrdd. Rwy'n parhau i gael fy ysbrydoli gan yr ymrwymiad, y gwytnwch a'r arloesedd sy'n cael eu dangos gan ein haelodau, ein partneriaid a'n cymunedau ledled Gwent.

Gyda'n gilydd, rydym yn creu llwybr newydd - un sy'n rhoi tegwch, tegwch iechyd, a lles hirdymor wrth wraidd popeth yr ydym yn ei wneud. Mae eleni wedi bod yn garreg filltir yn ein taith. Gan adeiladu ar y gydnabyddiaeth ohonom fel Rhanbarth Marmot cyntaf Cymru, mae Gwent wedi dwysáu ei hymrwymiad i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol anghydraddoldebau iechyd. Nid dyheadau yn unig yw egwyddorion Marmot, maen nhw'n sylfaen yr ydym yn llunio gwasanaethau, polisïau a phartneriaethau arni. O gymorth blynyddoedd cynnar i gyflogaeth, tai, yr amgylchedd a grymuso cymunedol, rydym yn mynd i'r afael â'r rhwystrau strwythurol sy'n atal gormod o'n trigolion rhag byw bywydau iach, boddhaol.

Nid oes dim o hyn yn bosibl heb gydweithrediad go iawn. Mae ein cryfder fel rhanbarth i'w gael yn undod ein gwasanaethau cyhoeddus - llywodraeth leol, iechyd, tai, yr hinsawdd a'r amgylchedd, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth tân ac achub, prifysgolion a'r sector gwirfoddol cryf ac effeithiol - gan weithio gyda'n gilydd i gyflawni'r uchelgeisiau a nodir yn ein Cynllun Llesiant. Rydym hefyd wedi dechrau ymwreiddio ymchwil a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ddyfnach yn ein gwaith, gyda chefnogaeth y Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd yn Nhorfaen a diwylliant cynyddol o rannu arloesedd ar draws y rhanbarth.

Rydyn ni'n glir am yr heriau rydyn ni'n eu hwynebu. Mae pwysau'r argyfwng costau byw, anghydraddoldebau iechyd, newid yn yr hinsawdd ac ymdrechion i'n rhannu, i gyd yn rhoi prawf ar ein systemau a'n cymunedau. Ond rydym yn parhau i fod yn gadarn yn ein cred y gallwn, trwy weithredu gyda'n gilydd gydag ymdeimlad o bwrpas a rhoi pobl a lle yn gyntaf, adeiladu Gwent tecach ac iachach i bawb.

Rwy'n estyn diolch o galon i gyn-Gadeirydd y BGC, y Cynghorydd Sean Morgan am ei arweinyddiaeth trwy gydol ei ddwy flynedd ac i'n holl bartneriaid, staff a chymunedau am eu hymroddiad parhaus. Ni fydd y gwaith o'n blaenau'n hawdd - ond mae'n hanfodol. Gyda'n gilydd, rydym yn gosod y sylfeini nid yn unig ar gyfer heddiw, ond hefyd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Y Cynghorydd Anthony Hunt**
**Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent &**
**Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**

# Cyflwyniad a Chefndir

Dyma ail adroddiad blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwent, sy'n amlinellu'r cynnydd yn erbyn Cynllun Llesiant Gwent yn ystod 2024-25. Mae'r BGC yn bartneriaeth o sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus sy'n gweithio gyda'i gilydd i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Gwent. Cyhoeddon ni ein Asesiad Lles cyntaf ar y cyd yn 2022, a ysbrydolodd ein Cynllun Lles Gwent a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2023.

Sefydlwyd BGC Gwent yn 2021, gan ddod â'r pump BGC presennol yn y rhanbarth at ei gilydd. Cafodd y penderfyniad hwn ei wneud er mwyn symleiddio a chryfhau'r trefniadau partneriaeth presennol trwy ddod â'r holl wasanaethau cyhoeddus at ei gilydd. Mae'r symud i BGC rhanbarthol, gyda chyfrifoldeb ar y cyd am wella lles, yn ei gwneud yn haws i bartneriaid gymryd rhan weithredol, i ychwanegu gwerth ac osgoi gwneud yr un peth sawl gwaith. Mae'r BGC yn cynnwys y partneriaid statudol, gan gynnwys cynrychiolwyr o bum awdurdod lleol Gwent, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â phartneriaid allweddol eraill megis Heddlu Gwent, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent, Cynghrair Gwirfoddol Torfaen, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, Prifysgol De Cymru a cynrychiolydd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig Gwent.

# Newidiadau o'r Llynedd

## Aelodaeth ac Arweinyddiaeth

Mae sawl newid allweddol wedi bod i strwythur aelodaeth ac arweinyddiaeth y BGC yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

| | |
|---|---|
| Cadeirydd newydd: Y Cyng. Anthony Hunt | Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Is-gadeirydd newydd | Yr Athro Tracy Daszkiewicz, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) newydd: | Jane Mudd |
| Prif Swyddog Tân newydd: | Fin Monahan |
| Arweinydd newydd Cyngor Dinas Casnewydd: | Y Cynghorydd Dimitri Batrouni |
| Prif Weithredwr newydd CBS Blaenau Gwent: | Stephen Vickers (Mewn Ffederasiwn gyda Thorfaen) |
| Prif Weithredwr newydd CBS Caerffili: | Ed Edmunds |
| Cadeirydd Cynghrair Wirfoddol Torfaen: | Y Cyng. David Williams |

## Proffiliau Aelodau

**Arweinwyr Maes Ffocws (MFf):** Mae arweinwyr newydd wedi'u neilltuo ar gyfer pob un o Feysydd Ffocws strategol y BGC. Mae'r arweinwyr hyn yn atebol am gyflawni cynnydd yn erbyn amcanion llesiant, adrodd yn ôl i'r Bwrdd, a chydlynu cyfraniadau aml-asiantaeth o fewn eu MFf.

**Tracy Daszkiewicz:** Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.

**Steve Morgan:** Bod pawb yn byw mewn cymuned sy'n barod i'r hinsawdd lle mae eu hamgylchedd yn cael ei werthfawrogi a'i ddiogelu.

**Jane Mudd a Mark Hobrough:** Bod pawb yn byw mewn lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel ynddo.

**I'w gadarnhau:** Bod gan bawb yr un cyfleoedd economaidd.

**Cydlynu a Chefnogaeth:** Mae cydlyniad strategol a gweithredol y BGC yn parhau i gael ei oruchwylio gan dîm GSWAG, sy'n cynnwys swyddogion partneriaeth ar draws y sector statudol.

Mae'r tîm hwn yn sicrhau gweithrediad rhwydd y BGC, yn cefnogi ei drefniadau llywodraethu, yn bwrw ymlaen â gweithredu'r Cynllun Llesiant, ac yn cysylltu â swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Archwilio Cymru, a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Er gwaethaf y newidiadau mewn aelodaeth, mae ein hymrwymiad parhaus i arweinyddiaeth gydweithredol yn rhoi'r BGC mewn sefyllfa gref i gyflawni canlyniadau ystyrlon i gymunedau. Mae ein harweinyddiaeth newydd a'n mecanweithiau cydlynu wedi eu mireinio'n ein galluogi i adeiladu ar lwyddiannau cyfredol ac addasu i heriau newydd mewn tirwedd sy'n newid yn barhaus.

# Craffu BGC Gwent

## Pwyllgor Craffu BCG Gwent

Er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd, mae gofyn am bwyllgor craffu llywodraeth leol dynodedig i graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Rôl Pwyllgor Craffu BGC Gwent yw herio, craffu a rhoi cefnogaeth i sicrhau gwelliant parhaus i'r Bwrdd.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys cynrychiolwyr annibynnol o bum awdurdod lleol Gwent, BIPAB, GAVO, TVA, y Gwasanaeth Tân a Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent. Mae'n cyfarfod bob chwarter cyn pob cyfarfod BGC Gwent i graffu a rhoi sylwadau ar bapurau agenda perthnasol BGC, ac mae'n cael ei gydlynu a'i weinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent.





Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn newid yn flynyddol yn nhrefn yr wyddor ymhlith pum cynrychiolydd awdurdodau lleol Gwent. Cadeiriodd y Cynghorydd Tommy Smith o Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent y pwyllgor rhwng Medi 2023 a Medi 2024. Mae'r Bwrdd bellach yn cael ei gadeirio gan y Cynghorydd Shane Williams o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, gyda'r Cynghorydd Penny Jones o Gyngor Bwrdeistref Sirol Sir Fynwy yn Is-gadeirydd.

Mae'r Pwyllgor Craffu wedi chwarae rôl bwysig yn ystod 2024-25 wrth graffu ar a chefnogi gwaith Meysydd Ffocws y BGC, gan wneud argymhellion allweddol ynghylch arweinyddiaeth, llywodraethu a'r defnydd o ddata cyfredol. Mae aelodau'r BGC sy'n arwain ar y gwaith o roi'r Dechrau Gorau mewn Bywyd i bob plentyn, Cymunedau Parod i'r Hinsawdd a Mannau Diogel wedi cyflwyno a rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor, yn ogystal â phartneriaid iechyd cyhoeddus sydd wedi rhoi gwybodaeth allweddol am raglenni Asesiad Strategol ar y Cyd a Llwybr Cyflym Gwent.

Y camau nesaf i'r Pwyllgor Craffu yw parhau i ystyried cynnydd yn erbyn pedwar Maes Ffocws y BGC, cymryd rhan mewn sesiwn friffio i aelodau i gyd ledled Gwent ar Fast Track Cymru a byw gyda HIV yn yr 21ain Ganrif, a gwneud argymhellion i'r BGC ynghylch unrhyw flaenoriaethau llesiant sy'n dod i'r amlwg.

# Cynllun Llesiant Gwent




Dangosodd yr Asesiad Llesiant ar gyfer Gwent ac adroddiad Creu Gwent Decach bod anghydraddoldeb ac amddifadedd yn ein cymunedau, a'r angen i weithredu ar yr argyfyngau hinsawdd a natur, yn cael effaith ar les.

Mae ein Cynllun Llesiant yn nodi sut yr oeddem yn bwriadu mynd i'r afael â'r heriau hyn ar draws Gwent. Mae gan y Cynllun ddau amcan allweddol rhyng-gysylltiedig:

- Rydym am greu Gwent tecach, mwy cydradd a chynhwysol i bawb.
- Rydym eisiau Gwent sy'n barod i'r hinsawdd, lle mae ein hamgylchedd yn cael ei werthfawrogi a'i ddiogelu, gan fod o fudd i'n llesiant nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

TEr mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion, mae'r cynllun yn nodi'r pum cam rhyng-gysylltiedig hyn:

- Cymryd camau i leihau'r argyfwng costau byw yn y tymor hirach.
- Darparu a galluogi cyflenwi cartrefi o ansawdd da, fforddiadwy, priodol.
- Cymryd camau i leihau ein hallyriadau carbon, helpu Gwent i addasu i newid yn yr hinsawdd, a diogelu ac adfer ein hamgylchedd naturiol.
- Cymryd camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd, trwy fframwaith Egwyddorion Marmot.
- Galluogi a chefnogi pobl, cymdogaethau a chymunedau i fod yn wydn, yn gysylltiedig, yn ffyniannus ac yn ddiogel.

Mae'r BGC wedi gweithio gyda'i gilydd, a gydag asiantaethau a phartneriaid eraill, i ddeall beth sydd angen i ni ei wneud, gyda'n gilydd ac ar raddfa, i gyflawni'r amcanion hyn. Rydym wedi nodi pedwar Maes Ffocws lle rydym yn teimlo y gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd
- Bod pawb yn byw mewn lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel ynddo
- Bod gan bawb yr un cyfleoedd economaidd
- Bod pawb yn byw mewn cymuned sy'n barod i'r hinsawdd lle mae eu hamgylchedd yn cael ei werthfawrogi a'i ddiogelu.

Byddwch yn gallu darllen mwy am y rhain a'r gwaith rydyn ni'n ei wneud i symud ymlaen â'r meysydd hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

# Plymio Dwfn - Maes Ffocws Dechrau Gorau mewn Bywyd

## Cefndir


Mae galluogi pob baban a phlentyn yng Ngwent i gael y dechrau gorau mewn bywyd yn Faes Ffocws sy'n flaenoriaeth i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent (BGC).

Mae'r Dechrau Gorau mewn Bywyd (DGMB) yn cyfeirio at y cyfnod tyngedfennol o feichiogrwydd hyd at saith oed - amser pan fydd y sylfeini ar gyfer iechyd, dysgu a lles gydol oes yn cael eu sefydlu. Mae rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd yn golygu galluogi pob rhiant, baban a phlentyn yng Ngwent i gael yr amodau gorau posibl sy'n angenrheidiol ar gyfer datblygiad corfforol, emosiynol a gwybyddol iach a'u cefnogi i gyrraedd eu potensial.

Mae profiadau cynnar cadarnhaol yn effeithio'n fawr ar ddatblygiad ac yn cael eu siapio gan sawl ffactor fel rhianta teimladwy, effeithiau statws economaidd-gymdeithasol, effaith penderfynyddion cymdeithasol iechyd (e.e. tai, diogelwch, hinsawdd) ac effaith addysg gynnar a gofal o ansawdd uchel.

## Pam fod hyn yn bwysig

Mae ffocws systematig ar rieni, babanod a phlant ifanc yn dangos y dystiolaeth sy'n dweud y gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf wrth leihau anghydraddoldebau (Academy of Medical Sciences, Prioritising Early Childhood to Promote the Nations, Health, Well-being and Prosperity, 2024).



# Plymio Dwfn - Maes Ffocws Dechrau Gorau mewn Bywyd


## Adeiladu Sylfeini'r Dechrau Gorau mewn Bywyd

Er mwyn gyrru newid ystyrlon, system gyfan, mae Grŵp Arweinyddiaeth Dechrau Gorau mewn Bywyd (DGMB) yn cael ei ffurfio. Bydd y tîm amlasiantaeth lefel uchel hwn yn dwyn ynghyd uwch arweinwyr o bob sefydliad ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwent. Eu cenhadaeth yw llunio a **llywio cynllun cyflawni rhanbarthol beiddgar, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer DGMB**, wedi'i seilio ar ganfyddiadau'r Adroddiad Creu Gwent Tecach (Marmot) ac Asesiad Anghenion Strategol ar y Cyd Dechrau Gorau mewn Bywyd Gwent (0–4 oed).

Bydd y cynllun cyflawni yn cael ei weithredu gan Grŵp Rheoli Rhanbarthol DGMB, gyda'r ddau grŵp yn hyrwyddo gweledigaeth DGMB ar draws eu sefydliadau a thu hwnt. **Gyda'i gilydd, byddant yn sicrhau bod babanod, plant a theuluoedd yn cael y gefnogaeth ddi-dor, gydgysylltiedig sydd ei hangen arnynt** - gan ddechrau o'r cyfnod cyn-beichiogi ac yn parhau trwy'r blynyddoedd cynnar.

**Bydd ffocws clir yn cael ei roi ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb**. Mae hynny'n golygu blaenoriaethu cefnogaeth i deuluoedd sy'n wynebu anfantais - gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig a'r rhai yr effeithir arnynt gan heriau economaidd-gymdeithasol. Bydd lleisiau rhieni, babanod a phlant ifanc wrth wraidd y cynllun cyflawni, ac yn llunio penderfyniadau bob cam o'r ffordd.

Wedi'u harwain gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i phum ffordd o weithio, bydd Grwpiau Arweinyddiaeth a Rheoli DGMB yn cydweithio nid yn unig ar draws system DGMB ond hefyd â thimau Maes Ffocws (MFf) eraill i sicrhau effaith barhaol ar draws Gwent.



# Astudiaeth Achos

## Adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus "Ein Dyfodol, Ein Llais" (2023/24)

Bob blwyddyn, mae Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus yn cyhoeddi adroddiadau ffurfiol am iechyd eu poblogaeth. Ond ar gyfer 2023/24, aeth ein Cyfarwyddwr, Tracy, ar lwybr gwahanol - un a roddodd blant wrth galon y stori.

Mae Ein Dyfodol, Ein Llais wedi ehangu lleisiau babanod, plant a phobl ifanc ledled Gwent, gan ddal eu profiadau byw ac effaith barhaol pandemig COVID-19. Clywsom gan ddau deulu am feichiogrwydd a magu plant yn ystod cyfnod clo 2020, a dau berson ifanc y cafodd eu harholiadau TGAU eu canslo. Rhannodd plant 10-18 oed o bedair ysgol a lleoliad ieuenctid "Cardiau Post o'r Pandemig" hefyd - negeseuon personol iawn i genedlaethau'r dyfodol.

Daeth y myfyrdodau hyn yn gapsiwl amser o wytnwch, gan ein hatgoffa bod yn rhaid i ni baratoi'n well i gefnogi pobl ifanc mewn argyfyngau yn y dyfodol. Er bod rhai yn croesawu'r seibiant o'r drefn i ddechrau, roedd llawer yn profi ynysu, gorbryder, ac effeithiau emosiynol parhaol.

Heriodd eu mewnwelediadau pwerus ni i ofyn: sut allwn ni wneud Gwent yn rhywle mae pob plentyn yn ffynnu ynddi'n wirioneddol? Tanlinellodd y gwaith hwn hefyd yr angen am dri Asesiad Anghenion Strategol ar y Cyd sy'n benodol i oedran er mwyn deall a diwallu anghenion babanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd ledled y rhanbarth yn well.











# Maes Ffocws Dechrau Gorau Mewn Bywyd

Mae Asesiad Anghenion Strategol ar y Cyd (AASC) Dechrau Gorau Mewn Bywyd Gwent yn edrych ar iechyd, datblygiad a lles plant 0–4 oed, gan dynnu sylw at y ffactorau sy'n siapio canlyniadau cynnar ac yn galw am ddull system gyfan i leihau anghydraddoldebau.

Rhwng Awst 2024 a Mawrth 2025, casglodd yr AASC fewnwelediadau trwy ddadansoddiad data, ymgysylltiad â theuluoedd a gweithwyr proffesiynol, ac adolygiad o wasanaethau lleol.

## Canfyddiadau Allweddol:

Soniodd teuluoedd am fynediad cyfyngedig at gyngor bwydo ar y fron cynenedigol, cymorth iechyd meddwl i famau, a phwysau ariannol yn ystod absenoldeb rhieni, ochr yn ochr ag ymwybyddiaeth isel o wasanaethau.

Nododd gweithwyr proffesiynol well cydweithredu trwy BadgerNet ond nodon nhw fylchau mewn cymorth ôl-enedigol, yn enwedig ar gyfer menywod y cafodd eu babanod eu cymryd oddi wrthynt, ac angen am fwy o hyfforddiant ymhlith staff gofal plant.

Mae gwasanaethau ledled Gwent yn rhai o ansawdd uchel ond ar gael yn anghyson, gyda gwybodaeth sy'n hen, llai o gapasiti ar ôl COVID, a chefnogaeth gynhwysol gyfyngedig i dadau, partneriaid, a theuluoedd LHDThCRhA. Mae rhwystrau mynediad, heriau'r gweithlu, a chyfyngiadau cyllido yn parhau i fod yn sylweddol.

## Argymhellion:
## Mae yna ddau ar bymtheg o argymhellion sydd â'r nod o gryfhau cymorth blynyddoedd cynnar, gan ganolbwyntio ar:

- Gwell gofal cyn ac yn ystod beichiogrwydd
- Gwell gwasanaethau brechu, datblygiad plant, a lleferydd/iaith
- Ehangu hyfforddiant chymorth i deuluoedd
- Cynnwys teuluoedd sydd wedi'u tangynrychioli wrth gynllunio

Roedd dwy flaenoriaeth yn amlwg: newid cefnogaeth yn gynharach yng nghwrs bywyd a thargedu datblygiad plant mewn teuluoedd incwm isel.

- Astudiaeth Achos – Dechrau Gorau mewn Bywyd Gwent
- Asesiad Anghenion Strategol ar y Cyd (2024/25)





## Y Camau Nesaf

Bydd canfyddiadau'n llywio cynlluniau cyflawni ledled Gwent. Mae rhanddeiliaid yn adolygu'r adroddiad, a bydd dull 'Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni' yn sicrhau gweithredu ar a rhannu adborth.

# Maes Ffocws Dechrau Gorau Mewn Bywyd

**Astudiaeth Achos:** Cydweithrediad i alluogi plant/teuluoedd yng Ngwent i gyflawni cerrig milltir datblygiadol yn barod ar gyfer yr ysgol.



Mae prosiect newydd cyffrous yn cael ei lansio yng Ngwent, wedi ei wneud yn bosibl trwy gyllid gan Grant Arloesi a Chefnogi Cymunedau Tlodi Plant Llywodraeth Cymru. Nod y prosiect hwn yw cefnogi plant a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi i gyrraedd cerrig milltir datblygiadol allweddol a bod yn barod i ffynnu pan fyddant yn dechrau'r ysgol.

## Am beth mae'r cyfan?

Gyda'n gilydd, rydym yn adeiladu ar bartneriaethau Blynyddoedd Cynnar presennol, tra'n dod â safbwyntiau newydd i fynd i'r afael â her a rennir: cefnogi plant yn eu blynyddoedd cynnar i ffynnu, waeth beth fo'u cefndir.

Mae hwn yn brosiect cydweithredol dan arweiniad Cyngor Dinas Casnewydd, Tim Iechyd Cyhoeddus Gwent BIPAB a Home-Start Cymru, mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol Blaenau Gwent, Caerffili, Torfaen a Sir Fynwy, yn ogystal â'r Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd – Torfaen a Chynghrair Gwirfoddol Torfaen.

## Pam fod hyn yn bwysig

Rydym yn gwybod fod tlodi'n cael effaith negyddol ar ddatblygiad plant a gall effeithio ar ddysgu a chanlyniadau hirdymor. Dyna pam fod y prosiect hwn yn canolbwyntio ar gyd-greu dulliau newydd, arloesol — gweithio gyda theuluoedd a gweithwyr proffesiynol Blynyddoedd Cynnar i gau'r bwlch datblygiadol. Mae'n ymwneud â phrofi dulliau newydd a gweithio mewn partneriaeth i wella'r ddarpariaeth bresennol a mynd i'r afael â bylchau i gefnogi teuluoedd.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Byddwn yn ymgymryd â gwaith ymgysylltu ac yn gweithio'n uniongyrchol gydag o leiaf 50 o deuluoedd ar draws pum Awdurdod Lleol Gwent, gan ganolbwyntio ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

## Trwy ymgysylltiad ystyrlon, byddwn yn

Datblygu dealltwriaeth ar y cyd o'r hyn y mae "barod i'r ysgol" yn ei olygu yng Ngwent Cyd-ddylunio gweithgareddau ac adnoddau sy'n cefnogi lleferydd, iaith, sgiliau cymdeithasol sgiliau, arferion, a chwarae plant. Profi a mireinio dulliau newydd sy'n ategu'r gefnogaeth Blynyddoedd Cynnar presennol. Mae'r gwaith hwn yn cefnogi'n uniongyrchol blaenoriaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwent: Rhoi'r Dechrau Gorau mewn Bywyd i bob plentyn, a byddwn yn adrodd am gynnydd drwy'r BGC.

# Maes Ffocws Bod pawb yn byw mewn cymuned sy'n barod i'r hinsawdd lle mae eu hamgylchedd yn cael ei werthfawrogi a'i ddiogelu

## Rydym eisiau Gwent sy'n barod i'r hinsawdd, lle mae ein hamgylchedd yn cael ei werthfawrogi a'i ddiogelu, gan fod o fudd i'n llesiant nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Ymateb i argyfwng Hinsawdd a Natur Gwent

Mae cymunedau wedi dweud wrthym eu bod yn poeni am allyriadau carbon, gwarchod natur ac effaith llifogydd, sychder a thonnau gwres mwy aml a difrifol. Mae'r Argyfwng Hinsawdd yn gyrru colli natur, ond gall ymateb i'r Argyfwng Natur ein helpu i reoli effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae newid yn yr hinsawdd yn fygythiad sylfaenol i'n hiechyd, ac mae'r grwpiau mwyaf agored i niwed yng Ngwent yn debygol o brofi effeithiau mwyaf newid yn yr hinsawdd.

Mae'r BGC yn canolbwyntio ar yr Argyfyngau Hinsawdd a Natur mewn ffordd deg ac integredig, gan wneud y mwyaf o effeithiau cadarnhaol ar holl benderfynyddion iechyd.

Mae'r maes ffocws hwn gan y BGC yn mynd i'r afael â'r angen i asesu risgiau hinsawdd i'n cymunedau, deall sut mae angen i ni addasu a blaenoriaethu gwytnwch hinsawdd a budd net ar gyfer bioamrywiaeth, ac integreiddio'r canfyddiadau hyn yn ein cynllunio corfforaethol a strategol, gan gynnwys y tir a'r adeiladau yn ein gofal.

Wrth ymdrin â'r heriau hyn, mae'r BGC wedi cydnabod y pwysau ar adnoddau'r sector cyhoeddus trwy gefnogi ceisiadau cyllid rhanbarthol cydweithredol ar gyfer grantiau o'r UE a'r Loteri Genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys grant gan y Gronfa Rhwydweithiau Natur sydd wedi'i roi i helpu i ddeall gwerth a chysylltedd ecosystemau ledled Gwent a'r manteision y maent yn eu darparu i bobl a natur, gan adeiladu tystiolaeth ar gyfer yr asesiad llesiant nesaf BGC.

Cryfhaodd gweithdy BGC ym mis Mawrth 2025 ddealltwriaeth o'r blaenoriaethau strategol a rennir gan sefydliadau BGC ar adferiad natur, risg hinsawdd ac addasu, ac ymgyrch ymwybyddiaeth datgarboneiddio ledled Gwent gydag ymgysylltiad lleol. Roedd dealltwriaeth ar y cyd o'r gwaith cydweithredol sydd ei angen i gydlynu ac integreiddio adnoddau a gweithgareddau ar draws partneriaid Gwent a phartneriaethau presennol.

Wrth edrych ymlaen, bydd y BGC yn dod â chyfarwyddwyr gwasanaethau'r sector cyhoeddus sy'n gyfrifol am fynd i'r afael ag Argyfyngau Hinsawdd a Natur Gwent ynghyd, i archwilio gallu ar y cyd i ail-alinio adnoddau presennol i gefnogi cydweithredu a chyflawni blaenoriaethau hinsawdd a natur a rennir. Byddant hefyd yn cyfrannu at ddatblygiad pellach Fframwaith Dangosyddion Gwent sy'n darparu ffynhonnell wybodaeth ar y cyd i bartneriaid ledled Gwent er mwyn ysbrydoli cynllunio a monitro darpariaeth gwasanaethau rhanbarthol a lleol.

# Maes Ffocws Mae pawb yn byw mewn lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel ynddo

Mae sicrhau bod 'Pawb yn byw mewn lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel ynddo' yn un o flaenoriaethau sylfaenol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent. Teimlo'n fwy diogel yw'r hyn y mae cymunedau lleol ledled Gwent yn dweud wrthym yw un o'u blaenoriaethau pennaf.

Ond nid yw hyn yn ymwneud yn unig â gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol pan fydd wedi digwydd. Mae hyn hefyd yn ymwneud â chael gwasanaethau cymorth effeithiol ar waith ac adeiladu cymunedau gwydn a chydlynol a all weithio gyda'i gilydd i atal hyn rhag digwydd yn y lle cyntaf. Dyma ble gall y BGC ddarparu'r arweinyddiaeth, y cydlynu a'r adnoddau ychwanegol i gael yr effaith fwyaf posibl ar gynyddu lefelau diogelwch ar draws Gwent.

Eleni daeth canlyniadau terfynol yr 'Adolygiad Diogelwch Cymunedol', a ddechreuwyd gan BGC Gwent yn 2022. Yn 2023/24, ailsefydlodd yr adolygiad Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol (PDC) yn yr ardaloedd hynny nad oedd ganddynt bartneriaethau. Y ffocws eleni oedd mynd ymhellach a chyflwyno grŵp llywodraethu strategol newydd i oruchwylio a chefnogi'r PDC a'r holl bartneriaethau eraill sy'n gweithio i leihau troseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwella diogelwch cymunedau yng Ngwent. Trwy'r grŵp hwn gellir cymryd mwy o gamau i fwrw ymlaen â'r flaenoriaeth hon.

Yn bwysig, roedd angen i dri datblygiad arwyddocaol ddigwydd i wireddu'r uchelgais hon, a ddigwyddodd y rheiny eleni:

| | |
|---|---|
| 1 | Cytunodd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent a Phrif Gwnstabl dros dro Heddlu Gwent i gyd-arwain y flaenoriaeth hon ym mis Medi 2024. |
| 2 | 2. Yn fuan wedyn, penododd y Comisiynydd y Prif Gwnstabl newydd yn barhaol. Ers hynny, mae'r Prif Gwnstabl wedi cyflwyno model plismona newydd ar draws Gwent, gyda Gwella Ymddiriedaeth a Hyder wrth wraidd y model newydd hwnnw, a mwy o ffocws ar blismona cymdogaeth i gynyddu gwelededd, darparu sicrwydd a gwneud cymunedau'n fwy diogel. |
| 3 | 3. Yn olaf, cyflwynodd y Comisiynydd Gynllun Heddlu, Troseddu a Chyfiawnder newydd ar gyfer Gwent ddiwedd mis Mawrth 2025. Mae gan y Cynllun newydd bum Piler lle mae blaenoriaethau perthnasol. |

Pileri Cynllun yw:

| | |
|---|---|
| a | Atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol |
| b | Gwneud ein cymunedau'n fwy diogel |
| c | Diogelu'r rheiny sy'n agored i niwed |
| d | Rhoi dioddefwyr yn gyntaf, a |
| e | Lleihau aildroseddu |

# Maes Ffocws Mae pawb yn byw mewn lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel ynddo

Trwy'r Cynllun cyfan mae pwyslais cryf ar fynd i'r afael â'r materion hynny y dywedodd y cyhoedd, aelodau PSB a phartneriaid eraill wrth y Comisiynydd mai dyna yw eu prif bryderon yn dilyn arolwg helaeth trwy gydol 2024. Ar ben hyn mae ffocws ar weithio mewn partneriaeth, yn enwedig y blaenoriaeth lleoedd mwy diogel o dan y BGC.

Gyda'r agweddau sylfaenol hyn bellach ar waith, symudodd y ffocws wedyn at ddatblygu'r cynlluniau, yr allbynnau a'r canlyniadau perthnasol a ddymunir yn erbyn y flaenoriaeth 'Lleoedd Mwy Diogel'. Bydd llawer o hyn yn cael ei gyflawni trwy'r strwythur partneriaeth aml-asiantaeth newydd a grybwyllwyd uchod, sy'n cynnwys uwch arweinwyr strategol o sefydliadau'r BGC a phartneriaethau perthnasol sy'n ymwneud â chadw cymunedau'n ddiogel.

Felly, drafftiwyd a chytunwyd ar gylch gorchwyl ar gyfer y strwythur newydd hwn, a elwir bellach yn Fwrdd Cymunedau Mwy Diogel Strategol Gwent (BCMDSG), a fydd yn cael ei gadeirio gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Yn gyffredinol, bydd y bwrdd newydd hwn yn darparu arweinyddiaeth system gyfan ar gyfer adeiladu cymunedau mwy diogel yng Ngwent ac yn galluogi darparu'r flaenoriaeth lleoedd mwy diogel. Y partneriaethau a fydd yn gweithio'n fwy cydlynol trwy'r datblygiadau hyn yw:

| |
|---|
| Pum Partneriaeth Diogelwch Cymunedol |
| Bwrdd Cynllunio Ardal Gwent |
| Bwrdd CONTEST Gwent |
| Bwrdd Diogelu Gwent |
| Grŵp Partneriaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol Gwent |
| Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Strategol Gwent |
| Bwrdd VAWDASV Gwent |
| Gweithgor Dyletswydd Trais Difrifol Gwent |

# Blaenau Gwent - Astudiaeth Achos

## Partneriaeth Llesiant Lleol Blaenau Gwent

Mae Partneriaeth Llesiant Lleol Blaenau Gwent (PLlLlBG), y grŵp cyflenwi lleol, yn grŵp o swyddogion sy'n cyfarfod yn ffurfiol bob chwarter, gydag is-grwpiau penodol o ran a gweithdai datblygu, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau partner lleol a rhanbarthol. Mae'n gyfrifol am nodi a datblygu blaenoriaethau llesiant lleol ar gyfer Blaenau Gwent a chyflawni'r rhain drwy weithio mewn partneriaeth gydweithredol.

Ym mis Mehefin 2024, mabwysiadodd PLlLlBG nifer o flaenoriaethau llesiant lleol allweddol oedd yn cyd-fynd â'r Cynllun Llesiant rhanbarthol, a nodwyd trwy gyfres o ymgysylltiadau â'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn ystod 2023-24. Nod y gweithdai ymgysylltu yn ystod 2023-24 oedd i'r PLlLl a rhwydweithiau partneriaethau ehangach ddod at ei gilydd a ystyried y blaenoriaethau llesiant yn ein cymunedau ac ystyried cyfleoedd lle gallai rhaglenni llesiant lleol sy'n cyd-fynd â Chynllun Llesiant rhanbarthol Gwent fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn lle gallai PLlLlBG ddylanwadu neu ychwanegu gwerth.

Nodwyd y prif feysydd ffocws a blaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg o'r gweithgaredd ymgysylltu fel a ganlyn ac fe'u mabwysiadwyd gan y PLlLl ym mis Mehefin 2024:

- Teithio a Thrafnidiaeth: cefnogi Teithio Llesol, Trafnidiaeth Gymunedol, Teithio a Thrafnidiaeth integredig, a throsglwyddo i Drafnidiaeth Gynaliadwy ac allyriadau isel
- Bwyd: mynd i'r afael ag Ansicrwydd Bwyd, cefnogi mynediad at fwyd fforddiadwy, iach, tyfu bwyd lleol, a datblygu'r Economi Bwyd lleol a Mentrau Bwyd Cymunedol
- Lleihau anghydraddoldebau drwy fynd i'r afael â thlodi, unigrwydd ac ynysigrwydd, a chefnogi Gwirfoddoli a chymunedau sy'n ystyriol o oedran
- Hinsawdd a Natur: mynediad at Dir a Mannau Gwyrdd lleol, gan wneud y gorau o'n Bioamrywiaeth a'n hamgylchedd naturiol, a hwyluso cyfranogiad lleol mewn rhaglenni hinsawdd rhanbarthol.



# Blaenau Gwent - Astudiaeth Achos

Mae Partneriaeth Bwyd Blaenau Gwent yn ceisio sicrhau bod gan holl drigolion Blaenau Gwent fynediad cyfartal at fwyd iach, fforddiadwy ac mae'n cynnwys cydweithio ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd, a sefydliadau'r trydydd sector. "Wrth wraidd ein cenhadaeth yw sicrhau bod gan bob preswylydd ym Mlaenau Gwent fynediad teg at fwyd iach a fforddiadwy," meddai Cydlynydd Partneriaeth Bwyd BG, Chris Nottingham. "Mae mynd i'r afael â thlodi bwyd, salwch sy'n gysylltiedig â diet a mynediad at fwyd fforddiadwy yn allweddol i bopeth rydyn ni'n ei wneud."



## Argyfwng Cynyddol

Mae Blaenau Gwent yn wynebu cyfraddau uchel o bwysau uchel a gordewdra, gyda 70% o oedolion a 26.5% o blant 4-5 oed yn dechrau'r ysgol naill ai'n rhy drwm neu'n ordew. Mewn ymateb, mae'r bartneriaeth yn gweithio ar draws y system fwyd gyfan, gyda ffocws penodol ar leihau anghydraddoldebau iechyd mewn oedolion a gwella mynediad at fwyd iach i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

# Caerffili – Astudiaeth Achos

## Strategaeth Sero Net 2050 GCLl Bwrdeistref Sirol Caerffili

Ym mis Mawrth 2025, cadarnhaodd Grŵp Cyflenwi Lleol Caerffili ei Strategaeth Sero Net 2050 yn ffurfiol, yn dilyn blwyddyn o ymgynghori, cyd-gynhyrchu gyda rhanddeiliaid a llywodraethu. Mae'r strategaeth hon yn dangos sut y gall cydweithio lleol gefnogi'r targed cyfreithiol o gyflawni allyriadau Sero Net erbyn 2050, wedi'i arwain gan uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).




Datblygwyd y strategaeth fel ymateb ar y cyd i'r argyfwng hinsawdd, gyda ffocws clir ar wrando ar drigolion a busnesau ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Mae wedi'i adeiladu o amgylch pum ffordd y Ddeddf o weithio: meddwl tymor hir, atal, integreiddio, cydweithredu, a chyfranogiad ac mae'r egwyddorion hyn wedi'u hymgorffori trwy'r ddogfen. Mae'r Strategaeth yn mynegi ymatebion ansoddol rhanddeiliaid drwyddi draw, gan ddyfynnu themâu preswylwyr darluniadol.




Mae pob pennod o'r strategaeth yn tynnu ar ail Gyllideb Garbon Cymru, ac yn mynd i'r afael â thema allweddol, megis ynni, trafnidiaeth, defnydd tir, ac ymddygiadau sefydliadol a'r gadwyn gyflenwi, ac yn dangos sut mae gweithredu yn y meysydd hyn yn cyfrannu at ein huchelgeisiau Sero Net. Mae'r bennod "Mannau yr Ydym yn Byw ac yn Gweithio Ynddynt" yn hyrwyddo tai ynni-effeithlon ac ôl-osod, gan gefnogi Cymru iachach a mwy gwydn. Mae'r adran "Ffyrdd Rydyn ni'n Symud" yn annog teithio llesol a thrafnidiaeth allyriadau isel, gan helpu i leihau anghydraddoldebau a chefnogi Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang. Mae'r strategaeth hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd sgiliau gwyrdd a throsglwyddo'r gweithlu, gan sicrhau bod newid economaidd yn gynhwysol ac yn cefnogi Cymru ffyniannus.

# Caerffili – Astudiaeth Achos




Nodwedd unigryw o'r strategaeth yw ei themâu trawsbynciol gan gynnwys arloesi digidol, addysg a chyllid. Nid yw'r rhain yn cael eu trin fel pynciau annibynnol ond maent wedi'u hintegreiddio trwy'r strategaeth i gefnogi gwneud penderfyniadau cydweithredol, sy'n addas i'r dyfodol. Blaenoriaethwyd themâu digidol ac addysgol i sicrhau bod y genhedlaeth nesaf, a'r ffyrdd y maen nhw'n yn cyrchu ac yn deall gwybodaeth, yn ganolog i ymateb hinsawdd ein rhanbarth.




Cafodd y strategaeth ei llunio gan ymgysylltiad cyhoeddus manwl, gan gynnwys presenoldeb ymgynghori digidol cryf. Dangosodd data dadansoddeg o'r cyfnod ymgynghori fod 86% o'r holl draffig i wefan BGC Gwent yn dod i weld y strategaeth ddrafft, gyda defnyddwyr yn treulio oriau, yn hytrach na munudau, yn darllen ac yn rhannu eu barn. Mae'r lefel hon o ymgysylltiad yn adlewyrchu diddordeb yr aelod-sefydliadau a'r cyhoedd, a'u hymrwymiad i lunio ymateb lleol i newid yn yr hinsawdd. Roedd yn galonogol nodi dyfnder a meddylgarwch yr ymatebion a dderbyniwyd a phlethwyd yr holl awgrymiadau yn y drafft terfynol.



Fe wnaethom hefyd ymgysylltu'n uniongyrchol ag 80 o fusnesau lleol, gan gasglu mewnwelediadau ar yr heriau a'r cyfleoedd y maent yn eu hwynebu wrth drosglwyddo i sero net. Helpodd eu cyfraniadau i lunio ffocws y strategaeth a sicrhau bod llais busnesau lleol yn cael ei gynrychioli, fel bod cyflogaeth a phŵer prynu trigolion yn fenter ar y cyd.

Cyfrannodd aelod-sefydliadau BGC Gwent nid yn unig amser ac arbenigedd trwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen pwrpasol, ond hefyd fe wnaethon nhw ysgrifennu neu olygu penodau neu themâu trawsbynciol neu fe rannon uchafbwyntiau mewn astudiaethau achos arfer gorau. Mae'r ymdrech hon ar y cyd wedi arwain at strategaeth sy'n seiliedig ar brofiad, anghenion a rhwystrau lleol ac yn cyd-fynd â pholisi a deddfwriaeth.

Yn unol â'i huchelgeisiau sero net, mae'r strategaeth wedi'i chyhoeddi a'i hyrwyddo gan ddefnyddio dulliau digidol carbon isel, gan leihau'r effaith amgylcheddol wrth wneud y mwyaf o hygyrchedd ac ymgysylltiad.

Mae Strategaeth Sero-Net 2050 CDLl Caerffili bellach ar waith fel fframwaith arweiniol ar gyfer gweithredu. Mae'n adlewyrchu ymrwymiad ar y cyd i feddwl yn hirdymor, gweithio mewn partneriaeth, ac ymgysylltiad ystyrlon, gan osod y sylfaen ar gyfer dyfodol mwy cynaliadwy a theg i bawb. Ein camau nesaf yw parhau i greu Cynllun Gweithredu gan ddefnyddio methodoleg gynhwysol ddigidol i gyflawni allyriadau $CO_2$ tiriogaethol Sero Net, gan wrando ar ein trigolion a'n busnesau i wneud hynny.



# Sir Fynwy - Astudiaeth Achos

## Ymgyrch Lumley: Dull Cymunedol/Ieuenctid at Strydoedd Mwy Diogel yng Nghil-y-coed

Yn gynnar yn 2024, gwahoddwyd Cyngor Sir Fynwy (CSF) gan Heddlu Gwent i gymryd rhan mewn menter newydd gyda'r nod o wella diogelwch a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol (YGG) yng nghanol trefi. Roedd y fenter, a elwir yn Ymgyrch Lumley, yn rhan o raglen ehangach a gefnogwyd gan Heddlu Gwent a'r Swyddfa Gartref.

Nodwyd Cil-y-coed fel ardal blaenoriaeth, ac er bod rhai awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar ddefnyddio wardeniaid gwisg, roedd ymagwedd CSF ychydig yn wahanol - un a roddodd ymgysylltiad â'r gymuned a chefnogaeth ieuenctid wrth wraidd yr ymateb.

## Rhoi Pobl Ifanc yn Gyntaf

Chwaraeodd Gwasanaeth Ieuenctid CSF ran ganolog wrth lunio a chyflawni Ymgyrch Lumley. Yn hytrach na dibynnu ar orfodaeth yn unig, roedd y tîm yn cydnabod pwysigrwydd adeiladu perthynas â phobl ifanc a chreu mannau diogel, cefnogol.

Roedd Gweithwyr Ieuenctid yn bresenoldeb gweladwy yng Nghil-y-coed, yn gwisgo tabardiau amlwg uchel ac yn ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl ifanc mewn parciau, strydoedd a mannau cyhoeddus. Cynhaliwyd sesiynau allgymorth mewn mannau hysbys o ran YGG yng Nghil-y-coed, gan ganiatáu i staff feithrin perthynas a darparu presenoldeb cyson, hygyrch.

Cynyddodd Canolfan Ieuenctid Zone ei oriau agor hefyd, gan roi lle croesawgar i bobl ifanc dreulio amser, cysylltu ag eraill, a chymryd rhan mewn gweithgareddau cadarnhaol. Trefnwyd y sesiynau i fod yn gynhwysol ac yn hyblyg, gyda phobl ifanc yn helpu eu hunain i gemau, yn sgwrsio dros siocled poeth, ac yn awgrymu syniadau ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol.

Roedd Gweithwyr Ieuenctid hefyd yn cefnogi lles emosiynol, gan helpu i gyfryngu gwrthdaro rhwngc yfoedion ac yn annog rhieni i gymryd rhan pan fo angen. Mewn un achos, ymyrrodd staff yn dawel i atal person ifanc emosiynol rhag cerdded i'r heol, gan ddangos gwerth cael oedolion dibynadwy yn bresennol yn y gymuned.

**Mae'n teimlo fel ein gofod ni. Rydyn ni'n cael dewis beth rydyn ni'n ei wneud a siarad am bethau sy'n bwysig i ni. Mae'r staff wir yn gwrando.**
Person ifanc yng Nghanolfan Ieuenctid The Zone

**Rydyn ni wedi gweld newid gwirioneddol yn y ffordd y mae pobl ifanc yn ymgysylltu â ni. Maen nhw'n fwy agored, yn fwy ymddiriedus, ac maen nhw'n gwybod ein bod ni yma iddyn nhw - nid dim ond i ddweud y drefn wrthyn nhw.**
Gweithiwr Ieuenctid CSF

# Sir Fynwy - Astudiaeth Achos

## Model Diogelwch Cyfunol

Daeth Ymgyrch Lumley â nifer o bartneriaid ac adnoddau at ei gilydd i greu ymateb ar y cyd:

- Gweithwyr Allgymorth Ieuenctid yn cynnig ymgysylltiad cyson, ar y stryd
- Staff diogelwch wedi'u hyfforddi i weithio ochr yn ochr â thimau ieuenctid a'r heddlu
- Roedd cymorth Teledu Cylch Cyfyng yn canolbwyntio'n benodol ar Cil-y-coed, gan helpu i fonitro ardaloedd allweddol ac ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau.
- Cydlynodd patrolau heddlu â thimau ieuenctid a diogelwch i sicrhau presenoldeb cytbwys a gweladwy.

Defnyddiwyd y model cyfunol hwn yn ystod adegau allweddol fel gwyliau ysgol, Calan Gaeaf, a Noson Tân Gwyllt - amser pan fydd pryderon diogelwch cymunedol yn aml yn cynyddu.

## Newid Cadarnhaol yng Nghil-y-coed

Cyn Ymgyrch Lumley, roedd Cil-y-coed wedi profi hafau anodd, gydag YGG gan bobl ifanc yn y penawdau ac yn achosi pryder ymhlith trigolion. Roedd y gwahaniaeth yn 2024/25 yn glir. Roedd adborth cymunedol yn hynod gadarnhaol, gyda llawer o drigolion yn mynegi gwerthfawrogiad am bresenoldeb Gweithwyr Ieuenctid a'r ffordd barchus yr oedden nhw'n ymgysylltu â phobl ifanc.

Ymatebodd pobl ifanc eu hunain yn dda i'r fenter. Roedden nhw'n teimlo eu bod yn cael eu gweld, eu clywed a'u cefnogi - nid yn unig yn cael eu plismona. Helpodd presenoldeb cyson y Gwasanaeth Ieuenctid i adeiladu ymddiriedaeth a lleihau tensiynau, gan gyfrannu at ostyngiad sylweddol mewn digwyddiadau YGG trwy gydol yr haf ac i mewn i 2025.

> **Mae'n dda gweld pobl allan yma sy'n gofalu mewn gwirionedd. Dydyn nhw ddim dim ond yn ein gwylio ni - maen nhw'n siarad â ni.**
> Person ifanc yn ystod sesiwn allgymorth

## Gweithio Gyda'n Gilydd ar gyfer Cymunedau Mwy Diogel

Roedd Ymgyrch Lumley yn enghraifft bwerus o bartneriaeth ar waith. Roedd y cydweithwyr allweddol yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent | |
| Heddlu Gwent | Cyngor Tref Cil-y-coed |
| Y Swyddfa Gartref | Gweithredwyr Ystafell Reoli Teledu Cylch Cyfyng SRS |
| Tîm Diogelwch Cymunedol CSF | Canolfan Ieuenctid Zone |
| Gwasanaethau Ieuenctid CSF | Cymuned Cil-y-coed |

# Sir Fynwy - Astudiaeth Achos

Gyda'i gilydd, helpodd y partneriaid hyn i greu Cil-y-coed mwy diogel, mwy cysylltiedig - lle roedd pobl ifanc yn cael eu cefnogi, ac roedd y gymuned yn teimlo eu bod yn cael eu clywed.









# Casnewydd - Astudiaeth Achos

## Cefnogi dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn y Gwasanaeth Llyfrgell

Ar ddechrau Tachwedd 2024, lansiodd Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyngor Dinas Casnewydd, mewn partneriaeth â Choleg Gwent, raglen beilot i gefnogi dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) i gyflawni rôl y Cynorthwyydd Dysgu Cymunedol a Llyfrgelloedd.




Cwblhaodd y grŵp cyntaf, a oedd yn cynnwys pedwar dysgwr o Raglen Byw'n Annibynnol Coleg Gwent, eu blwyddyn gyntaf fel interniaid yn Llyfrgelloedd Casnewydd, yn benodol yn y Llyfrgell Ganolog, fel rhan o'r bartneriaeth Interniaeth â Chymorth.

Roedd y rhaglen mor llwyddiannus fel bod y pedwar intern wedi cael eu gwahodd i ddychwelyd am yr ail flwyddyn, gan roi cyfle iddynt adeiladu ymhellach ar y wybodaeth a'r galluoedd a ddatblygwyd ganddynt. Hefyd, bydd y cynllun yn ehangu i groesawu cyfranogwyr newydd.



Mae trafodaethau parhaus gyda staff Coleg Gwent yn canolbwyntio ar nodi faint yn fwy o ddysgwyr y gellir eu cefnogi pan fydd y tymor newydd yn dechrau ym mis Hydref 2025. Y nod yw arfogi pob cyfranogwr gyda'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen i wneud cais yn hyderus am waith cyflogedig (os a phan fydd swyddi ar gael) ar ddiwedd eu cyfnod interniaeth, boed yn eu lleoliadau presennol neu mewn mannau eraill.

Mae'r cydweithrediad rhwng Coleg Gwent a Llyfrgelloedd Casnewydd wedi cael cymaint o groeso fel bod interniaeth y Llyfrgell Ganolog wedi'i hamlygu fel rhaglen Interniaeth â Chymorth enghreifftiol yn ystod ymweliad gan staff o Goleg Addysg Bellach yn Ffrainc, sy'n gobeithio sefydlu cynllun tebyg ar gyfer oedolion ag anghenion ychwanegol ym Mharis.



Mae'r Rheolwr Llyfrgell hefyd wedi rhannu adborth ar ran y Bartneriaeth Interniaeth â Chymorth a Choleg Gwent yn ystod eu harolygiad diweddar gan ESTYN.

# Torfaen - Astudiaeth Achos

Mae'r Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd (CYBI) yn Nhorfaen yn fenter arwyddocaol i roi hwb i allu ymchwil yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, ymgorffori diwylliant o ddefnyddio tystiolaeth wrth wneud penderfyniadau, a defnyddio canfyddiadau ymchwil i deall effaith penderfyniadau ar iechyd ac anghydraddoldebau. Hefyd, nod y CYBI yw cefnogi ymchwil mewn meysydd lle mae angen tystiolaeth.

GRŴP CYFLAWNI LLEOL Torfaen LOCAL DELIVERY GROUP

Mae'r CYBI'n gydweithrediad rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Prifysgol De Cymru, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'n un o 30 CYBI ar draws y DU ac un o ddim ond dau yng Nghymru, gyda'r llall yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r prosiect yn cael ei ariannu gan y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal am bum mlynedd, o 2025 i 2029. Mae'r tîm yn cynnwys pedwar ymchwilydd, swyddog ymgysylltiad, gweithiwr ymyrraeth, gweinyddwr, a rheolwr rhaglen.



Agwedd allweddol o ddull y CYBI yw cynnwys y gymuned. Mae'r CYBI'n gweithio gyda phob un o'r chwe Chyngor Tref a Chymuned yn Nhorfaen i nodi sut, ac ym mha ffyrdd, y mae mabwysiadu dull ymchwil gweithredu cyfranogol yn y gymuned yn gwella iechyd, lles, gwytnwch ac ymgysylltiad cymunedau Torfaen. Bydd y CYBI'n cefnogi ac yn grymuso cymunedau i gynllunio ymyriadau sy'n diwallu eu hanghenion lles. Mae'r dull hwn yn seiliedig ar yr egwyddor bod cymunedau yn y sefyllfa orau i ddatblygu'r math cywir o gymorth i'w hardaloedd. Bydd y CYBI hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu systemau effeithlon cysylltu a llywodraethu data, rhannu dysgu, a sicrhau gwerthuso cadarn, ymyriadau a chynaliadwyedd.

NIHR | Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd Torfaen
Health Determinants Research Collaboration Torfaen

CYBI Torfaen HDRC

Bydd y CYBI'n cyflwyno rhaglen hyfforddiant "I Mewn i Ymchwil yn Gyntaf", wedi'i anelu at ymchwilwyr newydd sydd heb fawr o brofiad o ymgymryd ag ymchwil. Yn ogystal, mae'n darparu cymuned arfer i rannu syniadau ac archwilio cyfleoedd. Nod cyffredinol y CYBI yw creu cyngor sy'n weithredol o ran ymchwil ac yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n defnyddio data i gefnogi gweithredu cymunedol a gwella tegwch iechyd. Bydd partneriaeth y BGC yn ehangach yn edrych ar ddysgu gan y CYBI, gan sicrhau bod dealltwriaeth ddatblygedig yn cael ei rhannu ledled Gwent ac y gellir ei defnyddio i gefnogi newid cadarnhaol ar draws y rhanbarth.

# Ymwybyddiaeth o Berygl Llifogydd - Astudiaeth Achos

## Ymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol Ymwybyddiaeth Llifogydd Gwent

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Gwnaethom gwblhau ymgyrch beilot yn y cyfryngau cymdeithasol, gyda'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth o berygl llifogydd a'r gwasanaeth rhybuddion llifogydd am ddim sydd ar gael yng Ngwent, trwy law Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Fe wnaethom ddefnyddio Meta a rhedeg yr ymgyrch dros gyfnod o bythefnos ddiwedd mis Chwefror a dechrau Mawrth 2025. Ein nod oedd cyrraedd pobl sy'n byw yn ardaloedd awdurdodau lleol yng Ngwent. Roedd yn cael ei chynnal gan gyfrif Awdurdod Lleol Torfaen, a gallwch weld delwedd isod o'r post.




Mae CNC yn darparu gwasanaeth rhybudd llifogydd am ddim i'r rhai sydd mewn perygl o lifogydd o brif afonydd a'r môr, fel y gall pobl sydd mewn perygl o lifogydd dderbyn negeseuon dros y ffôn, e-bost neu neges destun. Oni bai bod pobl yn cofrestru ar gyfer y gwasanaeth ni fyddant yn cael y rhybudd uniongyrchol pan fydd tywydd eithafol, i gael amser i gymryd camau i amddiffyn eu hunain a'u heiddo. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y difrod difrifol gan lifoydd y mae rhai yng Ngwent ei wynebu yn ystod y stormydd ar ddiwedd y llynedd.

O ddadansoddi dadansoddeg ymgyrch Meta, rydym wedi darganfod bod mwy o bobl wedi. ymweld â thudalennau gwe Ymwybyddiaeth Llifogydd CNC o'i gymharu â niferoedd arferol, felly roedd yn ymddangos bod yr ymgyrch yn llwyddiannus wrth godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth rhybuddio llifogydd am ddim sydd ar gael. Rydyn ni'n dal i ddysgu o'r cynllun peilot, gan ein bod am ddod o hyd i'r ffordd orau o gyrraedd cymaint o bobl â phosibl. Hoffem adeiladu ar yr ymgyrch hon a phrofi mwy o ffyrdd o gyfathrebu'r risgiau sy'n gysylltiedig â llifogydd, a'r hyn y gall pobl ei wneud i baratoi, addasu a dod yn fwy gwydn i hinsawdd newidiol Gwent.

Cofrestrwch i dderbyn rhybuddion llifogydd

# Gwiriadau Diogelwch yn y Cartref - Astudiaeth Achos

## Dull Cydweithredol gyda Diogelwch Tân yn y Cartref - Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Phartneriaid y BGC

**Gwasanaeth Tân ac Achub**
De Cymru

South Wales
**Fire and Rescue Service**

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC), mewn partneriaeth â phartneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), wedi llwyddo i gyflenwi cynllun wedi'i dargedu drwy'r thema "Mae Pawb yn Teimlo'n Ddiogel Gartref". Blaenoriaeth strategol yn canolbwyntio ar sicrhau diogelwch tân a lles i bawb, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed.



Nod y prosiect oedd cynyddu'r defnydd o Gwiriadau Diogelwch Tân Cartref (GDTCau) ymhlith unigolion risg uchel trwy wella cyfeirio ac atgyfeirio ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Gan gydnabod nad yw llawer o breswylwyr sydd mewn perygl bob amser yn weladwy i'r gwasanaethau brys, cydweithiodd GTADC a phartneriaid y PSB gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol, tai, a'r sector gwirfoddol i ymgorffori diogelwch tân yn y ddarpariaeth o wasanaethau bob dydd.

Arweiniodd yr Is-grŵp gydlynu'r gwaith hwn, gan ddatblygu mecanweithiau atgyfeirio ar y cyd a hyfforddi staff rheng flaen fel gweithwyr cymdeithasol, swyddogion tai, a gweithwyr iechyd proffesiynol i nodi risgiau tân a chyfeirio unigolion yn uniongyrchol at GTADC.

Roedd cyfarfodydd aml-asiantaeth rheolaidd yn galluogi partneriaid i adolygu data, rhannu dysgu, a mireinio dulliau. Mae'r model cydweithredol hwn yn sicrhau bod y rhai sydd fwyaf mewn perygl fel oedolion hŷn, unigolion â symudedd cyfyngedig, a phobl ag anghenion cymhleth yn cael eu nodi a'u cefnogi'n effeithiol.

Mae GTAGC eisoes wedi gweld cynnydd mewn atgyfeiriadau, fel y dangosir gan ystadegau cynnar ac wedi'i atgyfnerthu trwy adborth cadarnhaol a gasglwyd mewn digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned. Mae hyn yn adlewyrchu cryfder y dull partneriaeth ac effaith cyflawni trwy'r cynllun "Mae Pawb yn Teimlo'n Ddiogel Gartref".

[Gwiriadau Diogelwch y Cartref]

# Dyletswydd Trais Difrifol - Astudiaeth Achos

Cyflwynwyd y Ddyletswydd Trais Difrifol (DTD) yn 2023 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i lawer o bartneriaid BGC Gwent gydweithio i atal a lleihau trais difrifol trwy ddull aml-asiantaeth, sy'n cael ei yrru gan ddata ac sy'n canolbwyntio ar atal – blaenoriaethau allweddol blaenoriaeth 'Lleoedd Mwy Diogel' y Cynllun Llesiant. Ym mis Ionawr 2024 rhyddhawyd y strategaeth uchelgeisiol "Gwent heb Drais", yn seilieidig ar bedair blaenoriaeth: gwell defnydd o ddata, mynd i'r afael â ffactorau risg, gwneud y mwyaf o gydweithio, a mabwysiadu dull seiliedig ar le.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae materion allweddol yn parhau i gael eu nodi, fel troseddau cyllyll sydd wedi cynyddu 7.9%, a bod bron i draean o droseddwyr o dan 18 oed. Mae trais gan bobl ifanc mewn ysgolion yn bryder cynyddol, gyda bwlio yn y cyfryngau cymdeithasol, ymosodiadau yn arwain at anafiadau, a chynnydd mewn trais pobl ifanc yn erbyn oedolion. Gan ddefnyddio dull system gyfan, mae'r Bartneriaeth Ddyletswydd wedi defnyddio data cymdeithasol ac economaidd i archwilio ardaloedd o amddifadedd uchel fel Ringland a Pharc Lansbury, sy'n dangos cydberthynas gref â mwy o drais. Mae rhannu data'n well ymhlith partneriaid wedi bod yn hanfodol i lywio ymyriadau wedi'u targedu.

Mae ymyriadau cynnar ar sail tystiolaeth wedi'u defnyddio i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais, tra bod ymdrechion cydgysylltiedig ar draws yr heddlu, awdurdodau lleol, iechyd, y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a phartneriaid trydydd sector wedi cryfhau'r ymateb rhanbarthol. Mae strategaethau wedi'u teilwra, sy'n cael eu hysbrydoli gan y gymuned trwy bartneriaethau diogelwch cymunedol lleol yn sicrhau bod mewnwelediadau lleol yn arwain gweithredu.


Gyda chefnogaeth grant o £167,500 o'r Swyddfa Gartref, mae'r ymyriadau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys prosiectau diogelwch economi'r nos sy'n gwella diogelwch i fenywod a phobl eraill sy'n agored i niwed yng nghanol dinas Casnewydd. Mae cyllid wedi'i ddefnyddio ar gyfer cymorth therapiwtig i blant sy'n dioddef ymosodiadau rhywiol, ac mae rhaglenni cyfiawnder adferol ac addysg sy'n seiliedig ar rithrealiti wedi mynd i'r afael â phynciau troseddau cyllyll a cham-fanteisio troseddol ar blant ledled Gwent.

Mae'r llwyddiannau eleni yn cynnwys rhannu data'n well, gwell aliniad strategol o flaenoriaethau ar y cyd, ynghyd â chryfhau cefnogaeth gan Uned Atal Trais Cymru lle mae arferion gorau ar ba ymyriadau sy'n gweithio yn cael eu rhannu. O dan gyfarwyddyd y Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Strategol newydd yng Ngwent, byddwn yn anelu at fynd hyd yn oed ymhellach yn 2025/26.

Y Ddyletswydd Trais Difrifol

# Creu Gwent Decach

## Creu Gwent Decach, Iachach, Mwy Diogel a Chryfach




Ers cyhoeddi Creu Gwent Decach: Gwella Tegwch Iechyd a'r Penderfynyddion Cymdeithasol ym mis Gorffennaf 2023 [gwentpsb.org](gwentpsb.org), mae amrywiaeth o weithgareddau wedi'u dwyn ymlaen gan wasanaethau cyhoeddus i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a lles. Mae'r enghreifftiau isod yn tynnu sylw at sut mae gwasanaethau yn ymateb i benderfynyddion ehangach iechyd, a sut maen nhw'n gweithio gyda chymunedau i eirioli o blaid a chefnogi canlyniadau mwy teg.

Mae llawer o'r cynlluniau hyn yn dal i fod yn eu cyfnodau cynnar, a bydd angen amser i ddeall eu heffaith a'u heffeithiolrwydd tymor hirach yn llawn. Serch hynny, maen nhw'n adlewyrchu ymrwymiad at ddulliau cydweithredol, ataliol a chymunedol, ac yn dangos sut mae'r Pum Ffordd o Weithio a nodir yn y DLlCD yn cael eu rhoi ar waith ledled Gwent.

## Integreiddio Iechyd i Gynlluniau Datblygu Lleol

Gweithiodd Tîm Iechyd Cyhoeddus Gwent gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Edrychodd gweithdy rhanddeiliaid ar sut y gallai penderfyniadau cynllunio ddiwallu anghenion gwahanol grwpiau o'r boblogaeth yn well. Mae'r Tîm Iechyd Cyhoeddus hefyd wedi cyfrannu at ymgynghoriadau Cynllun Datblygu Lleol yng Nghaerffili a Sir Fynwy, gan gyflwyno cynigion i gryfhau'r ffocws ar leihau anghydraddoldebau iechyd drwy bolisi cynllunio.

## Prosiect Cartrefi Clyd

Ar hyn o bryd mae Tîm Iechyd Cyhoeddus Gwent yn gweithio gyda Chyngor Dinas Casnewydd, Cymru Gynnes, a Chyngor Sir Fynwy gan ddefnyddio dull wedi'i dargedu, sy'n seiliedig ar ddata o fynd i'r afael â salwch sy'n gysylltiedig ag oerfel yn y cartref. Cafodd data derbyniadau i ysbytai, sy'n cyd-fynd â chymhwysedd Llwybr 3 ECO4 (clefyd cardiofasgwlar, cyflwr anadlol, cyflyrau imiwnoataliedig, a symudedd cyfyngedig), ei groesgyfeirio â sgoriau Tystysgrif Perfformiad Ynni. Roedd hyn yn galluogi nodi aelwydydd risg uchel, a chysylltwyd â nhw wedyn i gynnig cyllid ECO ar gyfer gwresogi, uwchraddio inswleiddio a chyngor ar gynhesrwydd fforddiadwy. Ar hyn o bryd mae'r tîm yn gweithio ar ehangu'r prosiect ar draws y pum Awdurdod Lleol ac mewn partneriaeth â'r trydydd sector i ddarparu grantiau ECO a chyngor ar gynhesrwydd fforddiadwy i aelwydydd bregus, incwm isel. Mae'r prosiect yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd trwy wella ansawdd tai a chanlyniadau iechyd, gwneud y mwyaf o incwm, mynediad at wasanaethau a lleihau derbyniadau y gellir eu hosgoi i wasanaethau iechyd.

# Creu Gwent Decach

## Lleihau Anghydraddoldebau mewn Canlyniadau Iechyd Cardiofasgwlar - Gwasanaeth Canfod Achosion Gorbwysedd Gwaed




Cyflwynodd Is-adran Gofal Sylfaenol BIPAB wasanaeth canfod achosion i adnabod pobl sydd mewn perygl o orbwysedd gwaed nad oeddent eisoes ar gofrestr clefydau. Ar ôl eu hadnabod, cynigir i unigolion ymyrraeth ffordd o fyw 30 munud sydd wedi'i gynllunio i gefnogi newid mewn ymddygiad iechyd. Trwy gyrraedd pobl nad ydynt efallai yn cael mynediad at wasanaethau iechyd yn rheolaidd, mae'r gwasanaeth canfod achosion yn cefnogi atal cynnar ac yn helpu i leihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau iechyd cardiofasgwlar. Mae pum deg saith allan o 68 practis meddygon teulu yn cyflenwi'r gwasanaeth, gyda 1,103 o archwiliadau pwysedd gwaed wedi'u cwblhau, gydag 81 o unigolion wedi'u nodi fel unigolion sydd â phwysedd gwaed uchel ac sydd bellach yn derbyn triniaeth briodol mewn Gofal Sylfaenol ac atgyfeiriadau ymlaen at wasanaethau cymorth ffordd o fyw.

## Ymagwedd sy'n Seiliedig ar Ymddygiad at y Rhaglen Atal Diabetes

Mae'r Rhaglen Atal Diabetes, a ddarperir drwy Ofal Sylfaenol, yn darparu cymorth ymyrraeth fer wedi'i dargedu i unigolion sydd â mwy o berygl o ddatblygu diabetes math 2. Er gwaethaf ei manteision posibl, mae'r defnydd wedi bod yn isel. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn, ailgynllluniodd Deieteg Cymunedol BIPAB, mewn cydweithrediad â Thîm Iechyd Cyhoeddus Gwent, lythyr gwahoddiad dwyieithog y rhaglen. Mae'r llythyr diwygiedig yn defnyddio iaith glir, hygyrch ac yn cynnwys siart HbA1c gweledol i gefnogi dealltwriaeth o lefelau siwgr yn y gwaed a phwysigrwydd gweithredu'n gynnar. Trwy ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar ymddygiad, y nod yw lleihau rhwystrau cyfathrebu a chefnogi mynediad mwy teg. Bydd data rhaglenni yn y dyfodol a rennir â Thîm Iechyd Cyhoeddus Gwent yn helpu i asesu effaith y newidiadau hyn ar ymgysylltiad.

## Gwasanaethau Rheoli Pwysau Lefel 2 – Gwella Tegwch trwy Ddata

Mae Gwasanaeth Rheoli Pwysau BIPAB (Lefel 2) a ddarperir gan y Gwasanaeth Deieteg wedi dadansoddi data demograffig gan ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n tynnu sylw at y ffaith bod 92% yn nodi eu bod yn Brydeinig Gwyn. O'i gymharu â'r grŵp targed ar gyfer y gwasanaeth, dangosodd y dadansoddiad dangynrychiolaeth glir o gymunedau lleiafrifoedd ethnig o ran defnydd o wasanaethau. Mewn ymateb, bydd y Gwasanaeth Rheoli Pwysau yn ymgysylltu â'r cymunedau hyn i ddeall rhwystrau at fynediad a chyd-ddatblygu dulliau sy'n cefnogi ymgysylltiad a defnyddio'r Gwasanaeth Rheoli Pwysau.

# Creu Gwent Decach

## Derbyn Brechlyn HPV – Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau

Mae Tîm Nyrsio Ysgolion Gwent wedi arwain dull wedi'i dargedu i gynyddu nifer sy'n derbyn brechlyn HPV a lleihau amrywiad ar draws ysgolion prif ffrwd, a dan arweiniad model cyffredinoliaeth flaengar. Derbyniodd ysgolion â dros 80% yn mantesio y cynnig cyffredinol, derbyniodd y rhai rhwng 61-79% gymorth uwch, a derbyniodd ysgolion o dan 60% ddilyniant dwys. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gydag ysgolion i sicrhau rhestrau disgyblion cywir a chysylltu'n uniongyrchol â rhieni/gofalwyr nad oeddent wedi ymateb i geisiadau am ganiatâd. Mae data yn cael ei fonitro, a bydd canfyddiadau cynnar yn cael eu rhannu i lywio dysgu rhanbarthol ehangach. Mae camau ychwanegol sy'n canolbwyntio ar degwch yn cynnwys:

- Cynghori rhieni plant sy'n cael addysg gartref i drefnu apwyntiadau gyda chlinig cymunedol.
- Sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael eu gwahodd i glinigau cymunedol neu gartref yn ôl yr angen.
- Cydweithio â nyrsys ysgol ADY i gael caniatâd a defnyddio dulliau wedi'u teilwra (e.e., byrddau stori).
- Ymgysylltu â chanolfannau ailsefydlu i gynnig brechiad i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gyda chynlluniau yn y dyfodol i gefnogi plant sy'n ceisio lloches heb riant trwy glinigau plant sy'n derbyn gofal.

## Eirioli dros Benderfyniadau Trwyddedu Alcohol Mwy Teg

Mae niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yn digwydd yn anghymesur i bobl sy'n byw mewn ardaloedd o fwy o amddifadedd cymdeithasol, er bod y defnydd hunan-adroddedig yn aml yn is nag mewn ardaloedd mwy cyfoethog; ffenomen a elwir yn baradocs niwed alcohol. Mae Tîm Iechyd Cyhoeddus Gwent wedi tynnu sylw at y mater hwn yn gyson mewn ymgynghoriadau lleol a chenedlaethol ar bolisïau a deddfwriaeth trwyddedu alcohol. Er enghraifft, yn 2022–2023, roedd cyfraddau derbyn oherwydd alcohol i ysbytai yng Nghymru'n amrywio o 170 fesul 100,000 o'r boblogaeth ym Mro Morgannwg i 402 fesul 100,000 ym Mlaenau Gwent. Fe wnaethom ddefnyddio'r data hwn yn ein hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar Alcohol mewn Ardaloedd Palmant Trwyddedig i herio'r broses o gymhwyso dulliau trwyddedu cynhwysfawr. Pwysleisiwyd bod methu ag ystyried patrymau lleol o ddefnyddio alcohol a niwed yn peryglu gwaethygu anghydraddoldebau iechyd presennol.

## Bwyd a'r Blynyddoedd Cynnar – Creu Gweledigaeth a Rennir

Mae plant sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol uchel yn aml yn cael cyfleoedd cyfyngedig i roi tro ar ffrwythau a llysiau. Drwy weithio gyda Chydlynwyr Cynlluniau Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy a lleoliadau blynyddoedd cynnar, rydym wedi bod yn datblygu gweledigaeth a fframwaith a rennir ar gyfer gweithredu ar fwyd yn ystod plentyndod cynnar fel ffordd o gynyddu chwarae bwyd synhwyraidd, ymgysylltu â rhieni a llythrennedd bwyd yn gynnar. Y camau nesaf yw lansio'r fframwaith a gweithio gyda phlant, teuluoedd a Gweithwyr Proffesiynol Blynyddoedd Cynnar ar draws lleoliadau cyn-ysgol i weithredu'r fframwaith hwn.

# Creu Gwent Decach

## Cyfathrebu Cynhwysol a Mynediad at Gyfieithu

Mae gwasanaethau mamolaeth BIPAB wedi gweithredu amrywiaeth o fesurau i sicrhau cyfathrebu cynhwysol a hygyrch. Mae posteri "Helo a Chroeso" aml-ieithog yn cael eu harddangos ym mhob pob clinig a chanolfan gynenedigol, gyda fersiynau fformat mawr mewn ardaloedd allweddol. Mae Badgernet (y nodiadau mamolaeth electronig) yn caniatáu gwneud dewis iaith, ac mae cymorth cyfieithu ar gael trwy Language Line, SignLive (IAP), ac iPad gydag offer cyfieithu ar draws lleoliadau clinigol a chymunedol. Gellir cyfieithu Gyda'n Gilydd yn Iachach i dros 150 o ieithoedd. Mae codau QR ar bosteri mewn clinigau'n cysylltu â gwybodaeth mewn sawl iaith ac mae gan y staff i gyd fynediad at hyfforddiant a chanllawiau digidol i wella cyfathrebu â defnyddwyr amrywiol o'r gwasanaeth.

## Ymgysylltu â'r Gymuned a Chefnogaeth Cymheiriaid

Mae rhaglen wirfoddoli'n gwella gallu diwylliannol ac yn cefnogi mynediad at iaith. Mae gwirfoddolwyr o gymunedau Affganaidd, Pwylaidd, Rwmanaidd, Hwngaraidd ac Wcreinaidd yn cynnig cymorth gan gymheiriaid ac yn hwyluso mynediad at wasanaethau trwy weithgareddau cymunedol wedi'u teilwra a fforymau ar-lein. Mae'r rhain yn cynnwys grwpiau bwydo ar y fron, cylchoedd cyfeillgarwch ac allgymorth lleol i helpu menywod i lywio ffordd trwy'r system famolaeth.

## Dathlu Amrywiaeth ac Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol

Mae gwasanaethau mamolaeth yn dathlu'n rhagweithiol ddigwyddiadau aml-ffydd ac amlddiwylliannol trwy'r cyfryngau cymdeithasol, arddangosfeydd mewn clinigau, a gweithgareddau cymunedol. Mae gan staff fynediad at galendrau digwyddiadau diwylliannol, hyfforddiant cymhwysedd diwylliannol Diverse Cymru a mannau pwrpasol fel ystafelloedd aml-ffydd. Mae'r nodiadau mamolaeth llaw newydd Cymru Gyfan wedi'u diweddaru i gynnwys adrannau gofal wedi'u personoli sy'n adlewyrchu hunaniaeth ddiwylliannol, rhagenwau a dewisiadau cymorth. Mae mecanweithiau ar gyfer adborth, gan gynnwys codau QR ar gyfer adrodd pryderon diwylliannol, yn hyrwyddo cynhwysiant a diogelwch seicolegol.



# Creu Gwent Decach




## Dadl Pwysau Gwent a Chynulliadau Pwysau Iach

Rhwng Tachwedd 2024 a mis Ionawr 2025, arweiniodd Tîm Iechyd Cyhoeddus Gwent Drafodaeth Pwysau Gwent i ddeall yn well yr heriau y mae pobl yn eu hwynebu wrth gynnal pwysau iach. Ochr yn ochr â hyn, cynhaliwyd grwpiau ffocws – Cynulliadau Pwysau Iach – i wrando ar leisiau sydd prin yn cael eu clywed (fel cymunedau lleiafrifoedd ethnig, dysgwyr ESOL, grwpiau dynion a phobl sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor). Rhoddodd hyn fewnwelediadau gwerthfawr i'r profiadau a'r rhwystrau amrywiol sy'n wynebu cymunedau; bydd y canfyddiadau hyn yn cael eu defnyddio i lunio Cynllun Gweithredu Pwysau Iach Gwent i ddatblygu dull systemau cyfan o alluogi preswylwyr i gael diet iachach a bod yn fwy gweithgar yn gorfforol, drwy fynd i'r afael â'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu.

## Ymagwedd Gydweithredol at Atal Hunanladdiad a Gweithredu Cymunedol

Mae Tîm Iechyd Cyhoeddus Gwent wedi arwain prosiect aml-asiantaeth, o dan reolaeth Grŵp Llywio Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Gwent, mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan gymuned leol am leoliad sy'n gysylltiedig â digwyddiadau argyfwng dro ar ôl tro. Er bod nifer fach o farwolaethau trwy hunanladdiad ar y safle dros y degawd diwethaf, mae Heddlu Gwent wedi cael eu galw i gefnogi dros 40 o bobl mewn argyfwng ar y safle hwnnw yn ystod cyfnod o 18 mis.

# Creu Gwent Decach

Gan weithio gyda Heddlu Gwent, y Cyngor Tref lleol, sefydliadau'r trydydd sector (Sefydliad Joseph Abraham a Papyrus) ac yn bwysicaf oll, pobl â phrofiad byw, cyd-gynhyrchodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen adnoddau iechyd meddwl hygyrch. Datblygwyd y rhain mewn cydweithrediad â Thîm Cyfathrebu Iechyd Cyhoeddus Gwent i sicrhau eu bod yn ddifyr ac yn gynhwysol megis defnyddio dyluniad clir, cynnwys dwyieithog, iaith syml a theipograffeg briodol i gefnogi dealltwriaeth a hygyrchedd. Roedd yr adnoddau terfynol yn cynnwys taflen cerdyn z, posteri a "Cherdd Gobaith" i'w rhannu ar draws y dref ac ardal ehangach Gwent. Nod y prosiect yw cynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth fel gwefan Melo, yn enwedig i unigolion nad ydynt efallai'n ymwneud â gwasanaethau statudol. Mae'r cydweithrediad hwn wedi helpu i adfer ymddiriedaeth gymunedol, wedi cefnogi cyfranogiad dinesig, ac wedi dylanwadu ar ymdrechion ehangach i atal hunanladdiad ledled Cymru.

## Mamolaeth BIPAB yn Cael Gwobr Arian Gallu Diwylliannol

Yn unol ag Egwyddorion 1 a 7 Marmot (Rhowch y Dechrau Gorau mewn Bywyd i bob Plentyn; Mynd i'r afael â gwahaniaethu a hiliaeth a'u canlyniadau), mae Gwasanaethau Mamolaeth BIPAB wedi ennill Rhagoriaeth Arian Gallu Diwylliannol Diverse Cymru. Mae hyn yn cydnabod eu hymrwymiad i gyfathrebu cynhwysol, gofal diwylliannol diogel a lleihau anghydraddoldebau trwy ymgysylltiad ystyrlon â chymunedau amrywiol.

# BGC Gyda'n Gilydd

## Cytundeb Partneriaeth y Trydydd Sector (CPTS)

Mae Cytundeb Partneriaeth y Trydydd Sector ar gyfer Gwent yn parhau i wneud cynnydd cryf, gyda chefnogaeth partneriaid ledled y rhanbarth. Mae'r cytundeb yn cyd-fynd â'n cyfrifoldebau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), gan gyfrannu at les gwell i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol, ac yn cryfhau cyfranogiad a llais y trydydd sector ledled Gwent.

Gan adeiladu ar yr hen "Compactau" a oedd ar waith o'r blaen mewn rhannau o'r rhanbarth, mae'r CPTS yn nodi set o egwyddorion a chanllawiau a rennir ar gyfer cydweithio effeithiol rhwng partneriaid y Gwasanaeth Cyhoeddus a'r trydydd sector.

Cymeradwywyd CPTS trosfwaol Gwent ar ffurf drafft gan BGC Gwent yn 2024. Yn dilyn cyflwyno Cod Ymarfer Cyllido newydd Llywodraeth Cymru yn 2025, mae'r cytundeb wedi'i ddiweddaru i ymgorffori'r gofynion hyn a bydd yn cael ei ddwyn yn ôl i'r BGC i'w ystyried ymhellach.

Mae gwaith hefyd ar y gweill i ddatblygu cytundebau "Compact" lleol ar gyfer pob ardal, a fydd yn ffurfio atodiadau i'r CPTS trosfwaol. Rhagwelir y bydd y cytundeb cyflawn yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan BGC Gwent yn 2026.

## Cynnydd yn ôl ardal:

| | |
|---|---|
| Blaenau Gwent | Mae sgyrsiau cychwynnol wedi'u cynnal, gyda gwaith dilynol wedi'i gynllunio. Dros y misoedd nesaf, bydd y ffocws ar sefydlu fforymau newydd i yrru'r gwaith hwn ymlaen. Mae Compact drafft wedi'i gynhyrchu. |
| Caerffili | Cynhaliwyd gweithdy i lunio'r Compact a'r trefniadau llywodraethu gyda'r sector. Mae Compact drafft wedi'i gynhyrchu. |
| Sir Fynwy | Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol a datblygwyd cynllun ar gyfer cyfranogiad y sector. Dim Compact drafft eto; Mae trafodaethau gyda'r awdurdod lleol wedi'u cynllunio i alinio â'r agenda llesiant. |
| Casnewydd | Mae'r Compact wedi'i gytuno'n amodol, gyda gwaith yn parhau i sicrhau bod cynrychiolwyr y fforwm yn cael eu clywed yn effeithiol. |
| Torfaen | Bwriedir cynnal trafodaethau gyda Chynghrair Gwirfoddol Torfaen ym Medi 2025 i fwrw ymlaen â'r Compact. |

# BGC Gyda'n Gilydd

## Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant


Llunio Lleoedd
ar gyfer Llesiant yng Nghymru
Shaping Places
for Well-being in Wales

Yn ystod y cyfnod adrodd cytunodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent i ddod yn rhan o'r Rhaglen Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru.

Bydd y rhaglen Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru yn darparu adnodd cenedlaethol i gefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i gymryd dull systemau sy'n seiliedig ar theori a thystiolaeth yn eu gwaith i ddylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd wrth iddynt weithredu eu cynlluniau llesiant, gan rannu dysgu rhwng BGCau a ledled y DU.

Penderfynyddion ehangach iechyd yw'r ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sy'n effeithio ar iechyd a lles. Ar gyfer newid cadarnhaol parhaol, mae angen i ni ddeall ac ymateb i'r systemau cymhleth sy'n dylanwadu ar y ffactorau hyn a'n hiechyd.

Mae aelodau Gwent yn gweithio gyda Thîm Rhaglen Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru i ddeall sut y gallai defnyddio'r offer a ddefnyddir yn ystod y rhaglen gefnogi'r Asesiad Lles nesaf a'r cynllun cyflenwi trwy gefnogi dull system gyfan o nodi'r camau gweithredu sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf.




[Llunio Lleoedd ar gyfer Llesiant yng Nghymru]

# BGC Gyda'n Gilydd





Mae Asesiad Strategol ar y Cyd (JSA; Asesiad Strategol ar y Cyd Gwent, Rhifyn 2024/25 - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan) yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o iechyd a lles pobl Gwent mewn ffordd hygyrch i bawb ei weld.

Mae ASC Gwent yn eistedd ochr yn ochr â Fframwaith Dangosyddion Gwent (FfDG) sydd newydd ei ddatblygu, ac sy'n darparu ffynhonnell wybodaeth a rennir i bartneriaid ledled Gwent i lywio cynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau lleol. Gyda'i gilydd, maen nhw'n darparu fframwaith ar gyfer adeiladu Gwent Iachach, Tecach, Mwy Diogel a Chryfach, fel y disgrifir yn adroddiad 2024/25 Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus Gwent ; Ni yw Gwent: Gweithio gyda'n gilydd i helpu pobl i fyw bywydau iachach, tecach, mwy diogel a chryfach - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

P'un a ydych chi'n gweithio ym maes Cynllunio, Gweithrediadau, Cyllid, Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Tai, Addysg, neu yn y sector cymunedol a gwirfoddol, gall Asesiad Strategol ar y Cyd Gwent gefnogi eich penderfyniadau trwy ddarparu sylfaen dystiolaeth gref i adeiladu newid cadarnhaol arni.

Mae ASC Gwent 2024/25 yn ddec sleidiau cryno sy'n cyflwyno dangosyddion allweddol iechyd a lles mewn ardaloedd lleol ledled Gwent, wedi'u grwpio'n chwe phennod. Mae'n darparu tystiolaeth o heriau a chyfleoedd i gymunedau lleol, yn disgrifio rhai o'r gwahaniaethau mewn canlyniadau iechyd a chymdeithasol sy'n bodoli o fewn gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol Gwent, ac yn tynnu sylw at gyfleoedd i weithio gyda'i gilydd i adeiladu Gwent iachach, tecach, mwy diogel a chryfach.




Mae Fframwaith Dangosyddion Gwent yn adroddiad rhyngweithiol mawr sy'n cyflwyno dros 250 o ddangosyddion iechyd a lles yng Ngwent, yn ôl ardal awdurdod lleol a thros amser. Mae'r rhan fwyaf o'r data yn dod o ffynonellau data cenedlaethol sydd ar gael i'r cyhoedd fel Stats Cymru, Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Nod FfDG yw casglu dangosyddion perthnasol o'r ffynonellau hyn a'u cyflwyno mewn fformat hygyrch, i bawb eu defnyddio.

[Asesiad Strategol ar y Cyd - AASC]

# Ymgysylltiad a Chyfathrebu

## Blaenoriaethau: Cryfhau Ymgysylltiad a Chyfathrebu fel yr Edefyn Aur

Wrth i ni edrych ymlaen, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gryfhau ymgysylltiad a chyfathrebu fel yr edefyn aur sy'n mynd trwy gyflawniad parhaus o'r Ddeddf a'n blaenoriaethau strategol. Rydym yn cydnabod bod ymgysylltiad ystyrlon, cynhwysol a chyfathrebu clir ac alinio yn hanfodol i greu canlyniadau gwell i gymunedau ledled Gwent.

## Cryfhau Cydweithrediad Rhanbarthol

Un o'n blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod yw archwilio cyfuno posibl grwpiau cyfathrebu ac ymgysylltiad ledled Gwent. Trwy ddod â'r ymdrechion yma ynghyd, rydym yn anelu at feithrin mwy o gydgysylltiad ar draws partneriaid rhanbarthol, sicrhau negeseuon cyson, a lleihau dyblygu ymdrechion. Bydd y dull hwn hefyd yn helpu i fynd i'r afael â blinder ymgynghori, gan ein galluogi i gydlynu'n well, rhannu gwybodaeth, a chreu cyfleoedd ymgysylltu mwy ystyrlon a strategol gyda chymunedau.

## Alinio ac Ymhelaethu Blaenoriaethau

Bydd gweithio'n agosach gyda'n gilydd ar draws y rhanbarth yn ein galluogi i alinio blaenoriaethau, nodi bylchau, a sicrhau bod gwaith pob partner yn cyfrannu'n ystyrlon at ganlyniadau a rennir. Trwy feistroli'r dirwedd bartneriaeth gymhleth ar draws Gwent, gallwn symleiddio dulliau ymgysylltu a siarad ag un llais unedig, tra'n dal i gydnabod anghenion unigryw pob ardal.

## Llais Ieuenctid: Helpu Pobl Ifanc i Lunio'r Dyfodol

Rydym yn canolbwyntio'n arbennig ar gryfhau ein partneriaeth gyda Chynghorau Ieuenctid Gwent i sicrhau bod pobl ifanc yn "Cael Llais Uwch wrth Lunio'r Dyfodol." Bydd hyn yn cynnwys ymgorffori safbwyntiau ieuenctid mewn fforymau gwneud penderfyniadau allweddol, cyd-ddylunio gweithgareddau ymgysylltu sy'n berthnasol i bobl ifanc, a chynyddu eu lleisiau trwy ymgyrchoedd ac ymgynghoriadau rhanbarthol.

## Gwella Cydlyniad a Thryloywder

Yn unol â'n nod i weithio'n agosach ac yn fwy agored gyda'n gilydd, byddwn yn datblygu ymhellach offer a phrosesau i gefnogi cydweithredu, yn enwedig o gylch cyfathrebiadau a rennir, amserlennu ymgysylltiad, ac olrhain blaenoriaethau. Mae hyn yn cynnwys calendrau ymgysylltiad a rennir a dull unedig o adborth rhanddeiliaid a dilyn.

# Ymgysylltiad a Chyfathrebu

## Cyflwyno Cylchlythyrau Maes Ffocws

Er mwyn gwella tryloywder a chadw rhanddeiliaid yn llawn gwybodaeth, byddwn yn lansio cylchlythyrau 'Maes Ffocws'. Bydd y rhain yn darparu diweddariadau wedi'u targedu ar feysydd blaenoriaeth penodol, yn tynnu sylw at waith cydweithredol, ac yn rhannu straeon o effaith o bob rhan o'r rhanbarth. Bydd y cylchlythyrau hefyd yn cynnig diweddariadau rheolaidd ar gyfleoedd i ymgysylltu a chanlyniadau, gan helpu i gau'r cylch adborth gyda'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu

Mae ein blaenoriaethau blaengar yn adlewyrchu ymrwymiad clir i adeiladu cysylltiadau cryfach, symleiddio cyfathrebu, a galluogi cyfranogiad ystyrlon. Trwy ymgorffori ymgysylltu fel yr edefyn aur trwy bopeth a wnawn, byddwn yn parhau i greu ffordd fwy ymatebol, gynhwysol ac effeithiol o weithio sy'n cefnogi nodau hirdymor y Ddeddf - a phobl Gwent.

Stay informed:

- Ymunwch â'n rhestr bostio
- E-bost: gwentpublicservicesboard@torfaen.gov.uk
- LinkedIn
- Facebook



# Rhaglen Blaengynlluniau

## O Fast Track Casnewydd i Fast Track Gwent: Ymrwymiad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol i roi terfyn ar drosglwyddiadau HIV newydd erbyn 2030




Bydd esblygiad Fast Track Casnewydd i fod yn Fast Track Gwent yn garreg filltir arwyddocaol yn nhaith iechyd cyhoeddus Cymru drwy waith Fast Track Cymru. Dechreuodd Fast Track Casnewydd daith Gwent gydag ymrwymiad ar lefel dinas i roi terfyn ar drosglwyddiadau HIV newydd ym mis Tachwedd 2021, ac mae cynlluniau i ehangu i fod yn fudiad rhanbarthol, gan uno pob un o'r pum ardal awdurdod lleol yn y rhanbarth trwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwent.

Bydd y trawsnewidiad hwn yn cynnwys ail-lofnodi Datganiad Paris ym mis Mehefin 2025, sy'n symbol o addewid ehangach i ddileu stigma sy'n gysylltiedig â HIV, gwella mynediad at brofion a thriniaeth, a sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl. Mae'r newid yn adlewyrchu cydnabyddiaeth gynyddol bod mynd i'r afael â HIV yn gofyn am ddull cydgysylltiedig, trawsffiniol - un a fydd yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, yn ymgysylltu â chymunedau heb eu gwasanaethu'n ddigonol, ac yn integreiddio gwasanaethau ar draws sectorau.

Wrth wraidd y trawsnewidiad hwn mae ymrwymiad i degwch a chynhwysiant. Fel y dywedodd yr Athro Tracy Daszkiewicz, Cadeirydd BGC Gwent: "Mae Fast Track Gwent yn ymwneud â rhoi terfyn ar drosglwyddiadau HIV newydd, ond yr un mor bwysig, mae'n ymwneud â rhoi terfyn ar y stigma i'r rhai sy'n byw gyda HIV" Mae Fast Track Gwent yn gam beiddgar, cynhwysol a chydweithredol ymlaen. Mae'n adeiladu ar y sylfeini a osodwyd yng Nghasnewydd ac yn eu ehangu ar draws y rhanbarth, gan sicrhau bod y frwydr yn erbyn HIV nid yn unig yn cael ei chynnal—ond yn cael ei chryfhau. Wrth i'r rhanbarth edrych ymlaen, mae'r ffocws yn parhau i fod yn glir: dim trosglwyddiadau, dim stigma, a Gwent iachach, mwy tosturiol i bawb.

Fast Track Cymru

# Rhaglen Blaengynlluniau

## Y Camau Nesaf: Y Dechrau Gorau mewn Bywyd

Mae rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd yn golygu galluogi pob rhiant, baban a phlentyn yng Ngwent i gael yr amodau gorau posibl sydd eu hangen ar gyfer datblygiad corfforol, emosiynol a gwybyddol iach a'u cefnogi i gyrraedd eu potensial. Ffocws systematig, gan flaenoriaethu cymorth i deuluoedd sy'n wynebu anfantais, yw lle gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf wrth leihau anghydraddoldebau.

## Adeiladu Sylfeini DGMB

Bydd Grŵp Arweinyddiaeth Dechrau Gorau mewn Bywyd yn cael ei ffurfio i yrru newid ystyrlon, system gyfan. Bydd y Grŵp yn arwain y gwaith o ddatblygu cynllun cyflawni DGMB ar gyfer Gwent, a fydd yn seiliedig ar ganfyddiadau adroddiad Creu Gwent Decach (Marmot) ac Asesiad Anghenion Strategol ar y Cyd Dechrau Gorau mewn Bywyd Gwent (0–4 oed), a bydd yn cael ei weithredu gan y Grŵp Rheoli DGMB Rhanbarthol. Bydd cyfarfod cyntaf y Grŵp Arweinyddiaeth yn cael ei gynnal ym mis Medi 2025.

Bydd cynlluniau'n cael eu datblygu a'u gweithredu i gefnogi Cymuned Arfer DGMB trwy gyfres o weminarau a chylchlythyrau/bwletinau. Bydd cyllid y BGC yn cael ei ddefnyddio i gefnogi hyn. Bydd y Maes Ffocws DGMB hefyd yn sicrhau cydweithrediad â Meysydd Ffocws eraill y BGC.

Yn dilyn gwahoddiad gan Lywodraeth Cymru, bydd Tîm Iechyd Cyhoeddus Gwent yn cyflwyno yng nghynhadledd Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf ym mis Hydref 2025 i rannu dysgu am ddod yn rhanbarth Marmot.

## Asesiad Anghenion Strategol ar y Cyd (AASC) Y Dechrau Gorau mewn Bywyd 0-4 Oed

Trefnir gweminar lansio AASC ar gyfer 8 Medi 2025 i archwilio'r canfyddiadau, yr argymhellion a'r camau nesaf gyda phartneriaid. Bydd canfyddiadau AASC yn llywio cynlluniau cyflawni ledled Gwent.

# Rhaglen Blaengynlluniau

## Prosiect Parodrwydd Ysgol 'Barod i Ddysgu, Barod i Dyfu'



Bydd ymgynghoriad â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a theuluoedd yn cael ei gynnal i gael eu barn a'u profiadau o 'Barodrwydd Ysgol', yn ogystal ag ymyrraeth uniongyrchol gyda 50 o deuluoedd ledled Gwent.

Enwyd y prosiect yn 'Ready to Learn, Ready to Grow' | 'Barod i Ddysgu, Barod i Dyfu' ac mae bellach yn barod i dderbyn atgyfeiriadau ar gyfer teuluoedd a fyddai'n elwa o'r ymyrraeth. Mae grŵp llywio'r prosiect yn datblygu'r briffio rhanddeiliaid nesaf a fydd yn cael ei rannu, ochr yn ochr â manylion sut i gyfeirio a beth y gall teuluoedd ei ddisgwyl.

## Adroddiad Cynnydd Maes Ffocws yr Hinsawdd a Natur

Er mwyn cefnogi'r argymhelliad a gymeradwywyd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio i sicrhau cyllid i ddatblygu Asesiad Risg Newid Hinsawdd (ARNH) i Went. Bydd y gwaith hwn yn sail i Gynllun Addasu i'r Hinsawdd ac yn llywio asesiad llesiant 2026–27, gan sicrhau bod seilwaith, gwasanaethau a chymunedau Gwent yn wydn i effeithiau hinsawdd. Byddwn yn dilyn y Fframwaith pum cam ARNH a rannwyd gyda'r BGC ym mis Mawrth 2023, gan ddechrau gyda chynllunio a symud ymlaen at flaenoriaethu risg a monitro ac yn cynnwys ymgysylltiad helaeth â rhanddeiliaid a chyfranogiad y gymuned.

## Gwent Mwy Diogel. Mae pawb yn byw mewn lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel ynddo

Ar adeg ysgrifennu, roedd cyfarfod cyntaf y GSSCB wedi digwydd i gytuno ar ffyrdd o weithio. Mae'r gweithgarwch ar gyfer 2025/26 eisoes wedi cynnwys goruchwylio ymgyrch diogelwch haf a gaeaf (yn y dyfodol), gyda mwy o gamau gorfodi ac ymgysylltu ar draws canol trefi yng Ngwent (gyda chllid newydd wedi'u cyflwyno ar gyfer y rhain), ac adolygiad ar y gweill o Fwrdd CONTEST Gwent (sy'n gweithio i atal terfysgaeth ar draws cymunedau Gwent) sydd i fod i adrodd yn hydref 2025.

Mae eleni wedi bod yn ymwneud â gosod y sylfaen ar gyfer y flaenoriaeth hon. Edrychwn ymlaen at weld beth y fwy y gellir ei wneud y flwyddyn nesaf.

## Y Camau Nesaf ar gyfer Adeiladu Gwent Decach, Iachach, Mwy Diogel a Chryfach

Bydd gwasanaethau cyhoeddus ledled Gwent yn parhau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a lles. Byddan nhw'n ymateb i benderfynyddion ehangach iechyd ac yn gweithio gyda chymunedau i eirioli a chefnogi canlyniadau mwy teg trwy amrywiaeth o weithgareddau/gwasanaethau, gan adlewyrchu ymrwymiad at ddulliau cydweithredol, ataliol sy'n canolbwyntio ar y gymuned, ac yn dangos sut mae'r Pum Ffordd o Weithio a nodir yn DLlCD yn cael eu rhoi ar waith ledled Gwent.

# Rhaglen Blaengynllluniau

## Mae gan bawb yr un Cyfleoedd Economaidd

Mae BGC Gwent wedi mabwysiadu Maes Ffocws i weithio mewn partneriaeth tuag at roi'r un cyfleoedd economaidd i bawb yn y rhanbarth. Nododd proses fapio ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod 2024 weledigaeth hirdymor i wella llwybrau at gyflogaeth weddus, deg a chynaliadwy ar draws Gwent trwy ddull partneriaeth gydgysylltiedig o addysg, sgiliau, hyfforddiant, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli.

Y nod yw gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â lefelau anghydraddoldeb, anweithgarwch economaidd a diweithdra hirdymor, ac i hyrwyddo economi llesiant lle mae anghenion pobl a'r amgylchedd yn cael eu diwallu'n gyfartal ar draws Gwent. Mae'r newid hwn wedi ei lywio gan dystiolaeth o Adroddiad Llesiant Gwent a'r adroddiad Creu Gwent Decach, ac fe'i nodir fel maes ffocws yn Economi Llesiant – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, strategaeth Cymru Can y Comisiynydd a'r Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025.

Nid yw'r BGC wedi nodi Aelod Arweinydd ar gyfer y Maes Ffocws hwn eto yn dilyn cydweithio ac archwilio parhaus â rhanddeiliaid llesiant economaidd rhanbarthol fel Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, awdurdodau lleol a darparwyr addysg. Y cam nesaf yw nodi a chytuno ar lwybr clir i fynd â'r gwaith hwn ymlaen trwy'r Maes Ffocws Cyfleoedd Economaidd.

## Asesiad Llesiant Gwent

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod dyletswydd ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gynhyrchu asesiad lleol o lesiant bob pum mlynedd. Cyn ffurfio BGC Gwent, roedd pum BGC ar wahân yn rhanbarth Gwent, a ymgymerodd â'r broses asesu ac ymgysylltu ar y cyd ym mis Ionawr 2021.

Cytunodd y BGCau unigol i gynhyrchu un asesiad ar gyfer Gwent gyfan, gydag asesiadau lleol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol. Cyhoeddwyd y dadansoddiad helaeth hwn ar 5 Mai 2022 ac roedd yn llywio'r Cynllun Llesiant ar gyfer Gwent, a gyhoeddwyd y flwyddyn ganlynol.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i ddatblygu Asesiad Strategol ar y Cyd Gwent a Fframwaith Dangosyddion Gwent, gan sicrhau bod yr holl ddata perthnasol sydd ar gael yn llywio ein trafodaethau gyda thrigolion a busnesau Gwent cyn diweddaru'r Cynllun Llesiant ar gyfer 2028-2033.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Gwent
Public Services Board